

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 9fed Mai 2016

Minutes of Annual Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 9th May 2016

Yn Bresennol/Present: Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Douglas Davies, Beth Davies, Keith Evans, Wyn Evans, Terry Griffiths, Andrew Howell, Gethin Jones, Abbey Reid, Carolyn Reed-Rees, a/and Cyng Sir/ C Cllr Peter Evans a Peter Davies

Roedd PCSO Shan Davies yn bresennol yn y cyfarfod, ac aeth ymlaen i hysbysu'r Cyngor o'r digwyddiadau a welwyd yn Llandysul a'r Cyffiniau dros y mis diwethaf ;

- Roedd 1 gwryw wedi cael ei arestio ar gyhuddiad a oedd yn ymwneud â chanabis
- Bu bwrgleriaeth yn y Siop Cebabau ac arestwyd un unigolyn
- Achoswyd difrod troseddol i eiddo yn Sgwâr Bradford ac arestwyd un unigolyn
- Cafwyd dwy alwad am rebels rasio yn y prif faes parcio – mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cyngorwyr i PCSO Shan Davies am ei holl waith caled ac am fynychu'r cyfarfod.

PCSO Shan Davies was present at the meeting and informed the Council of incidents that had occurred in Llandysul and Area in the past month ;

- 1 male arrested on a cannabis charge
- Burglary at the Kebab Shop one arrested
- Criminal damage to a property at Bradford Square with one arrested
- Two calls had been received in respect of boy racers in the main car park – this was currently being monitored.

Cllrs expressed their gratitude to PCSO Shan Davies for all her hard work and for attending the meeting.

Sylwadau'r Cadeirydd / Chairman's

comments:

Diolchodd Cyng Keith Evans i'r Cyngor am yr anrhydedd a'r fraint o gael bod yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2015-16 y Cyngor, ac adroddodd ei fod wedi cael cyfnod pleserus. Aeth ymlaen i ddiolch i'r holl Gynghorwyr am eu cyfraniadau a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei mewnbwn a'i chymorth gwerthfawr gyda gwaith y Cyngor trwy gydol y flwyddyn. Ymatebodd y Cynghorwyr trwy dalu teyrnged i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol, gan ddiolch iddo am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda ac roedd pawb yn gwerthfawrogi ei waith caled a'i ymroddiad i'r ddyletswydd.

- 1 **Ethol Cadeirydd** : Gofynnodd y cadeirydd a oedd yn ymddeol am enwebiadau ar gyfer rôl Cadeirydd y Cyngor. Cynigiodd Cyng Douglas Davies enw'r Is-Gadeirydd, Cyng Beth Davies; eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng sain gwybod pwy. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach ac etholwyd Cyng Beth Davies. Yna, cyflwynodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol Arwyddnod y Swydd i'r Cadeirydd newydd.

Diolchodd Cyng Beth Davies i'r Cyngor am eu cymeradwyaeth ac am y cyfle o gael cynrychioli Ward Tre-groes. Addawodd y byddai hi'n cyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd hyd eithaf ei gallu. Aeth ymlaen trwy ganmol y Cadeirydd a oedd yn ymddeol am ei fedrusrwydd a'i waith caled yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

- 2 Llofnodwyd y **Datganiad Derbyn Swydd gan Gynnwys Cod Ymddygiad y Cyngor** gan Gyng Beth Davies.
- 3 **Ethol Is-Gadeirydd** Gofynnodd Cyng Beth Davies i'r cyngor ethol Is-Gadeirydd. Cynigiodd Cyng Douglas Davies enw Cyng Andrew Howell ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Abbey Reid. Derbyniodd Cyng Andrew Howell a diolchodd i'r Cyngor.
- 4 **Personol** Cyhoeddodd Cyng Wyn Evans y byddai'n ymddeol fel Cynghorydd ar gyfer Ward Llandysul yn ystod y ddau fis nesaf ac ar ôl cwblhau'r adroddiad ynghylch cynigion er mwyn adnewyddu'r cynllun Goleuadau Nadolig.
- 5 **Ethol Pwyllgor Cynllunio** Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylid ethol yr aelodau canlynol i'r Pwyllgor Cynllunio:- **Ward Capel Dewi** – Cyng Tom Cowcher, **Ward Tref Llandysul** – Abbey Reid a Cyng Roy Davies. **Ward Tre-groes** – Cyng Eileen Curry, **Ward Pont-siân** – Cyng Gethin Jones. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc

Cllr Keith Evans thanked the Council for the honour and privilege of being Chair of the Council for the 2015-16 Municipal year and reported that he had an enjoyable period. He continued by thanking all Councillors for their contributions and hard work during the year. The Chair went on to thank the Clerk for her valuable support and input into the work of Council throughout the year. Councillors in response paid tribute and thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and the hard work and his dedication to duty was appreciated by all.

- 15 **Election of Chair** : The retiring chair called for nomination for Chair of Council. Cllr Douglas Davies proposed Vice-Chair, Cllr Beth Davies as chair; this was seconded by Cllr sain gwybod pwy. There were no further nominations and Cllr Beth Davies was duly elected. The outgoing Chair then presented the Chair with the Insignia of Office.

Cllr Beth Davies thanked the Council for their endorsement and for the opportunity of representing the Tregroes Ward. She promised to undertake her duties as Chair to the best of her ability. She continued by complementing the retiring Chair for his proficiency and hard work during his term in office.

- 16 **Declaration of Acceptance of Office Including the Council Code of Conduct** was signed by Cllr Beth Davies.

- 17 **Election of Vice Chair** Cllr Beth Davies called upon the council to elect a Vice-Chair. Cllr Douglas Davies proposed Cllr Andrew Howell this was seconded by Cllr Abbey Reid. Cllr Andrew Howell accepted and thanked the Council.

- 18 **Personal** Cllr Wyn Evans announced that he would be retiring as Councillor for the Llandysul Ward within the next two months and after completing the report re Christmas Lighting scheme renewal proposals.

- 19 **Election of Planning Committee** It was unanimously resolved to elect the following Planning Committee:- **Capel Dewi Ward** - Cllr Tom Cowcher, **Llandysul Town Ward** – Abbey Reid and Cllr Roy Davies. **Tregroes Ward** - Cllr Eileen Curry, **Pontsian Ward** – Cllr Gethin Jones. Continued delegated authority was given to the Clerk to respond to the

ymateb i'r Awdurdod Cynllunio ynghylch ceisiadau y mae gofyn cael sylwadau amdanynt rhwng cyfarfodydd, trwy gysylltu ag aelodau'r wardiau perthnasol ar y pwyllgor cynllunio.

- 6 **Ethol Pwyllgor Cyllid** Penderfynwyd ethol y canlynol: Cynghorwyr Douglas Davies, Abbey Reid ac Andrew Howell. Bydd y clerch yn trefnu bod y gorchymyn banc yn cael ei newid.
- 7 **Archwilydd Mewnol** Penderfynwyd y dylai Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwilydd Mewnol.
- 8 **Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Cyng Carolyn Reed-Rees barhau i gyflawni'r rôl Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol.
- 9 **Asesiad Risg** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd er mwyn rheoli Rheolaeth Fewnol/Asesiad Risg ac i adolygu'r Yswiriant. Penderfynwyd adolygu'r rhain ddwywaith y flwyddyn.
- 10 **Cael y Datganiad o Gyfrifon** Cynigiodd Cyng Beth Davies y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Carolyn Reed-Rees ac fe'i dderbyniwyd. Awgrymodd yr aelodau bod angen bod yn ofalus na fyddwn yn gwario swm sy'n uwch na'n praesept yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol. Penderfynwyd y dylai'r clerch ychwanegu brawddeg i'r llythyr a anfonir yn cynnig rhodd neu grant, ac y dylai unrhyw gyfraniad o'r fath gan y Cyngor gael ei wario a'i hawlio yn ystod y Flwyddyn ariannol pan gaiff ei awdurdodi
- 11 **Ymddiheuriadau:** Roedd Cynghorwyr Eileen Curry ac Aled Jones wedi anfon eu hymddiheuriadau.
- 12 **Datgelu Buddiannau** Cyng Gethin Jones Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pont-siân
- 13 Derbyniwyd bod **Cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016 yn gywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
- 14 **Materion yn Codi:- Maes Parcio** Roedd Ymddiriedolwyr y Parc wedi cael llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion erbyn hyn, a oedd yn ymateb i gais Ymddiriedolwyr y Parc Coffa am godiad i swm y rhent a delir ar gyfer rhan o'r maes parcio.
Goleuadau Nadolig Esboniodd Cyng Wyn Evans ei fod yn ymgynghori gyda Chynghorwyr Andrew Howell a Tom Cowcher ynghylch y Goleuadau Nadolig yn Llandysul.

Planning Authority on applications that required observations between meetings by contacting the relevant planning committee ward members.

- 20 **Election of Finance Committee** It was resolved to elect the following: Cllrs Douglas Davies, Abbey Reid and Andrew Howell. The clerk to arrange for the bank mandate to be changed.
- 21 **Internal Auditor** It was resolved that Mr R J Foulkes continues as Internal Auditor.
- 22 **Internal Control/Internal Checker:-It** was resolved that Cllr Carolyn Reed-Rees continues as Internal Control/Internal Checker.
- 23 **Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance have been taken. It was resolved to review these twice a year.
- 24 **To Receive Statement of Accounts** Cllr Beth Davies proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year this was seconded by Cllr Carolyn Reed-Rees and carried. Members suggested that care needed to be exercised to avoid overspending our precept in any one financial year. It was decided that the clerk add a sentence to the offer letter when providing a donation or grant that any such contribution by the Council should be spent and claimed within the Financial year that it had been authorised
- 25 **Apologies:** Cllrs Eileen Curry and Aled Jones tendered their apologies.
- 26 **Declarations of Interest** Cllr Gethin Jones Pontsian School PTA
- 27 **Minutes** of the monthly meeting held on 11th April 2016 were accepted as correct and signed by the Chair.
- 28 **Matters Arising:- Car Park** A letter had now been received by Park Trustees from Ceredigion County Council. in response to the Memorial Park Trustees request for an uplift in the rent being paid for part of the car-park.
Christmas Lights Cllr Wyn Evans explained that he is consulting with Cllrs Andrew Howell and Tom Cowcher in respect of the Christmas Lighting in Llandysul. It was resolved that clerk write to the owner of Bryntawel, Wind Street requesting permission to reinstate an anchor that had come loose from the

Penderfynwyd y dylai'r clercc ysgrifennu at berchennog Bryntawel, Stryd y Gwynt, gan ofyn am ganiatâd er mwyn ailosod angor a oedd wedi dod yn rhydd o'r eiddo yn ystod digwyddiad yn ddiweddar.

Ysbwriel

Esboniodd Cyng Carolyn Reid Rees bod y broblem ysbwriel ym Maesymeillion yn parhau, ac nad oedd y Cyngor Sir wedi ei datrys. Penderfynwyd y dylai'r clercc gysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto, gan ddwyn eu sylw at y mater.

14 Grant Thornton – Cafwyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/16. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gymeradwyo'r canlynol:

Adran 1 – Mae'r Datganiadau Cyfrifyddu yn ddadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan "9" uchod a llofnodwyd y Dystysgrif cyn archwilio gan y Clercc. Yn ogystal, roedd y Cadeirydd a'r Clercc wedi llofnodi'r Cadarnhad cyn yr archwiliad.

Adran 2 – Penderfynwyd cymeradwyo hysbysiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y cyhoedd, sy'n hysbysu bod cofnodion ar gael i'w harchwilio, a'i fod wedi cael ei arddangos mewn man priodol. Mae'r Archwiliwr Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi archwilio'r cyfrifon hefyd.

15 Rhoddion

- (i) **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pont-siân:** Gofynnwyd am gyfraniad o £300 er mwyn cynnal digwyddiad a fyddai'n dathlu 136 o flynyddoedd o addysg yn yr ysgol cyn iddi orffen darparu gwasanaeth o'r fath, i'w gynnal ym mis Gorffennaf. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.
- (ii) **Ras yr Iaith:** Gofynnwyd am rodd er mwyn cynorthwyo'r digwyddiad a fyddai'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg yn y Sir. Byddai'r ras yn teithio trwy Llandysul. Penderfynwyd cefnogi'r digwyddiad trwy roi £50.
- (iii) **Gofal Canser Tenovus:** Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi £120, eiliwyd y cynnig hwn gan Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.

Cafwyd llythyr gan Gyngor ar Bopeth Ceredigion yn diolch i'r Cyngor am eu rhodd garedig o £500.

16 Gohebiaeth

Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-** Mae'r **Praesept** wedi cyrraedd ac mae wedi cael ei dalu i mewn i'r banc, a'r swm yw £39,007.00. **Canolfan Hamdden** Cafwyd llythyr

property during a recent incident.

Litter

Cllr Carolyn Reid Rees explained that the litter problem in Maesymeillion was still an

ongoing problem and had not been remedied by the County Council. It was decided that the

clercc contact the County Council again, alerting them to the issue.

14 Grant Thornton – Annual Return form for the year ended 31/03/16 was received. It was resolved that the Community Council approve the following:

Section 1 – Accounting Statements being a breakdown of the figures approved under "9" above and the Certification prior to audit was signed by the Clercc. Also, that the Chair and Clercc signed Confirmation prior to audit.

Section 2 – It was resolved to approve the Annual Governance Statement notice to the public informing that the records are available for inspection has been appropriately displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

15 Donations

- (iv) **Pontsian School PTA:** A £300 donation was requested to host a celebration of 136years of education at the school before it ceases to provide such service in July. It was decided to donate the requested amount.
- (v) **Ras yr Iaith:** Requesting a donation to support the event to celebrate and raise an awareness of the Welsh Language in the County. The race would be passing through Llandysul. It was decided to support the event by donating £50.
- (vi) **Tenovus Cancer Care:** It was proposed by Cllr Keith Evans to donate £120 this was seconded by Douglas Davies and carried.

A letter was received from Ceredigion Citizens Advice thanking the Council for their kind donation of £500.

16 Correspondence

The following were received from **Ceredigion:-** **Precept** has now been received and paid into the bank in the sum of £39,007.00. **Leisure Centre A**

ymgyngori ynghylch Canolfan Hamdden Llandysul. Penderfynwyd y dylai'r clercc ofyn am becyn gwybodaeth. **Terfynau Cyflymder** Cafwyd llythyr ynghylch y newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder mewn rhannau penodol o dref Llandysul, gan gyfyngu ar y cyflymder i 20 milltir yr awr. Penderfynwyd y dylai'r clercc ymateb, gan nodi y dylai'r darn a fyddai'n destun cyfyngiad o 20 milltir yr awr gael ei ddynodi ar gyfer yr holl rannau y maent yn cynnwys cyfyngiad o 30 milltir yr awr ar hyn o bryd.

Teimlwyd nad oes angen newid unrhyw beth ym Maesymeillion nac yng Nghapel Dewi, gan gychwyn o'r tai Cyngor. **Parcio:** Cafwyd diwygiadau arfaethedig ynghylch Lleoedd Parcio Ceir Oddi ar y Stryd. Penderfynwyd y dylai'r clercc ateb y Cyngor Sir trwy nodi pwysigrwydd hysbysebu'r newidiadau mewn ffordd eglur, yn enwedig materion y maent yn ymwneud â deiliaid bathodynnau glas.

ULIC/SLCC – Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clercc, ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 11 Ebrill ac 8 Mai 2016.

Cafwyd copi o gylchgrawn Clerc.

Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 27 Ebrill. Roedd Cynghorwyr Andrew Howell ac Abbey Reid wedi mynychu.

Grant Thornton – Cafwyd hysbysiad ynghylch y dyddiadau ar gyfer yr archwiliad o'r Cyfrifon Blynnyddol, ac fe'i nodwyd.

GIG Cymru Cafwyd llythyr ynghylch trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl.

Croeso i gerddwyr:- Cafwyd gwahoddiad i adnewyddu'r tanysgrifiad blynnyddol i gynllun croeso i gerddwyr. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor dalu'r ffi adnewyddu.

Anfonebau

Ron Foulkes – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Mawrth 2016 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic er mwyn talu'r ffi o £150 am y flwyddyn ariannol. Fel y gwiriwr mewnol, roedd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees wedi bod yn archwilio'r cyfrifon trwy gydol y flwyddyn hefyd.

V Davies – Cafwyd anfoneb am y swm o £72.00 am lanhau lloches bws Capel Dewi.

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £128.15 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic i'w Thalu.

consultation letter was received with regards to Llandysul Leisure Centre. It was decided that the clercc requests an information pack. **Speed Limits** A letter was received with proposed changes to speed limits in specified areas of the town of Llandysul restricting speeds to 20 MPH. It was decided the clercc reply, stating that the proposed 20 MPH should be designated for all the current 30MPH zones.

It was felt that there was no need to change anything in Maesymeillion and Capel Dewi to start from the Council houses. **Parking:** Proposed amendments for Off Street Car Parking Places was received. It was decided that the clercc reply to the County Council noting the importance of advertising the changes clearly and especially issues relating to the blue badge holders.

OVW/SLCC – Emails – A list of all the emails sent to the clercc and duly forwarded to members from 11th April – 8 May 2016 was tabled.

A copy of the Clerc magazine was received.

Notice of the Ceredigion Area Meeting held

on 27th April 2016 was received, Cllrs Andrew Howell and Abbey Reid was in attendance.

Grant Thornton – Notice regarding dates for the Annual Account inspection was received and noted.

NHS Wales A letter regarding transforming mental health services was received.

Walkers are welcome:- An invitation to renew the annual subscription of walkers are welcome was received. It was decided that the Council pay the renewal.

Invoices

Ron Foulkes - Confirmation was received that the accounts as at 31 March 2016 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £150 for the financial year. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker also checked the accounts throughout the year.

V Davies – Invoice for cleaning Capel

Cyngor Sir Ceredigion – Derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec am y swm o £400 er mwyn talu am gasglu gwastraff masnachol.

Solutions Factory – Cafwyd anfoneb am y swm o £144 er mwyn talu am Enw Parth gwefan Cyngor Cymuned Llandysul, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

17. Canolfan Ddŵr Llandysul – Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn hysbysu'r Cyngor o'r ffaith bod y trafodaethau wedi cael eu cwblhau gyda'r Comisiwn Elusennau erbyn hyn, a bod hyn yn golygu y byddai modd symud ymlaen gyda Phrydles ar gyfer Canolfan Ddŵr Llandysul, a bod proses yn mynd trwy'r Cyngor Sir ar hyn o bryd er mwyn galluogi hyn.

18. Cau Ysgolion – Cafwyd neges e-bost gan Neil Hinchliffe yn nodi bod y Cyngor Cymuned wedi datgan nad oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn defnyddio Ysgol Gynradd Llandysul nac Ysgol Pont-siân yn y dyfodol fel cyfleuster ar gyfer y Cyngor. Nododd bod safle Dyffryn Teifi yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ond bod yn rhaid i fater sy'n ymwneud ag ymddiriedolaeth addysgol gael ei datrys yn gyntaf. Byddai'n cysylltu â'r Cyngor Cymuned maes o law.

Nododd y Cynghorwyr eu bod wedi hysbysu'r Cyngor Sir o'r ffaith bod gan y Ganolfan Deuluoedd ddiddordeb yn y Ganolfan Blant Integredig a leolir ar safle Ysgol gynradd Llandysul.

19. Parc Coffa / Lle chwarae: Esboniodd Cyng Keith Evans bod y garreg goffa wedi cael ei harchebu. Roedd wedi cael tri dyfynbris i adeiladu'r wal, sef Ken Bowen £900, Alan Jones £1200 ac Iwan Thomas £3100. Penderfynwyd y byddai Ken Bowen yn adeiladu'r wal.

Roedd cŵn wedi bod yn baeddu yn y lle chwarae; penderfynwyd trefnu bod arwyddion yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y parc.

Penderfynwyd cysylltu â'r Gymdeithas Chwaraeon gan ofyn am esboniad ynghylch y ffaith nad yw'r porfa yn cael ei dorri yn y lle chwarae yn unol â'r fanyleb.

Esboniwyd bod y ffens o gwmpas y Lle Chwarae i blant yn pydru. Penderfynwyd cysylltu â Davies and Jenkins a Tommy Jones am ddyfynbrisiau.

(Gadawodd Cyng Peter Evans y cyfarfod ar yr adeg hon)

20. Cynnal a Chadw/Plannu – Penderfynwyd y dylai Cyng Andrew Howell gysylltu â Farnyard Nurseries er mwyn trefnu bod

Dewi bus shelter for £72.00 was received.

Llinos Jones – Invoice for April translation was received for the sum of £128.15 and cheque was passed for Payment.

Ceredigion County Council- A cheque for the collection of trade waste for £400 was passed for payment.

Solutions Factory – An invoice for £144 for the Domain Name for Llandysul Community Council website was received and passed for payment.

17. Llandysul Aqua Centre – A letter was received from Ceredigion County Council informing the Council that discussions were now complete with the Charity Commission which enabled the outstanding issue of a Lease for the Llandysul Aqua Centre could be proceeded with and was going through the County Council processes to enable this..

18. School Closures – An e-mail was received from Neil Hinchliffe noting that the Community Council had indicated that they had no interest in the future use of either Llandysul Primary and Pontsian School as a facility for the Council. He noted that Dyffryn Teifi was under consideration but had to wait for the educational trust issue to be resolved. He would contact the Community Council in due course.

Cllrs noted that they had passed on to the County Council the interest of the Family Centre in the Childrens Intergrated Centre located on the Llandysul primary School site.

19. Memorial Park / Playarea: Cllr Keith Evans explained that the memorial stone had been ordered. He had received three quotes to build the wall Ken Bowen £900, Alan Jones £1200 and Iwan Thomas £3100. It was decided that Ken Bowen would be building the wall.

Dogs had been fouling in the play area; it was decided to have signs made for the park.

It was decided to contact Cymdeithas Chwaraeon asking for an explanation as to why the grass was not being cut within the play area as per specification.

It was explained that the perimeter fencing around the children's Playground was rotting. It was decided to contact Davies and Jenkins and Tommy Jones for

blodau yn cael eu plannu yn Llandysul.

21. Materion Wardiau

Llandysul Heb unrhyw ymgynghoriad, deallir y bydd y swyddfa gyllid yn Llandysul yn cau ddiwedd fis Mai.

Penderfynwyd ysgrifennu at Dafydd Llywelyn i'w longyfarch ar gael ei ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed Powys.

Byddai llythyr yn cael ei anfon at Elin Jones ac at Paul Davies i'w llongyfarch am gadw gafael ar eu seddau yn ystod etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Yn ogystal, penderfynwyd ysgrifennu at Ysgol Gynradd Llandysul, gan ofyn am gadarnhad ysgrifenedig y byddai'r delyn a roddwyd iddynt yn cael ei symud i Ysgol Bro Teifi.

Capel Dewi Gofynnodd Cyng Tom Cowcher a fyddai modd i'r Cyngor Cymuned brynu bin baw cŵn ar gyfer Capel Dewi. Penderfynwyd y dylai'r clerc archebu bin.

Yn ogystal, hysbysodd y Cyngor eu bod yn ceisio ailagor llwybr troed cyhoeddus 6759.

(Gadawodd Peter Davies y cyfarfod ar yr adeg hon)

29. Lwfans y Cadeirydd (Gadawodd y Cadeirydd yr ystafell yn ystod y trafodaethau) Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylai swm y lwfans aros yr un peth, sef £300. Yn ogystal, ar ôl cael cyngor gan ULIC, penderfynwyd dyfarnu'r lwfans ym mis Ionawr.

30. Cyflog y Clerc – (Gadawodd y Clerc yr ystafell yn ystod y drafodaeth). Penderfynwyd cynnwys y mater ar agenda cyfarfod y mis nesaf, oherwydd y byddai hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau ymchwilio a yw Cyflog y Clerc yn bodloni'r gofynion newydd ynghylch yr isafswm cyflog. Byddai cyflog y clerc yn aros yr un fath nes byddai hyn yn cael ei archwilio, ac os byddai codiad yn cael ei argymhell, byddai hwn yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau blwyddyn y Cyngor.

31. Deunydd ysgrifennu Penderfynwyd y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i brynu deunydd ysgrifennu a nwyddau traul trwy ymgynghori gyda'r Cadeirydd.

32. Cynllunio

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 11.05.16.

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan

quotations.

(Cllr Peter Evans left the meeting at this point)

20. Maintenance/Planning – It was decided that Cllr Andrew Howell contact Farmyard Nurseries to arrange the planting of flowers in Llandysul.

21. Ward Matters

Llandysul Following no consultation it is understood that the cash office in Llandysul will close at the end of May.

It was decided to write to Dafydd Llywelyn congratulating him on being elected to the role of the Police and Crime Commissioner for the Dyfed Powys Force area.

A congratulatory letter was to be sent to Elin Jones and Paul Davies for retaining their seats in the recent Welsh Assembly election.

It was also decided to write to Llandysul Primary School asking for written confirmation that the harp donated to them would be re-located as Ysgol Bro Teifi.

Capel Dewi Cllr Tom Cowcher requested that the Community Council purchase a dog litter bin for Capel Dewi. It was decided that the clerk order a bin.

He also informed the Council that they were trying to re-open public footpath 6759.

(Peter Davies left the meeting at this point)

29. Chair's Allowance (The Chair left the room during discussions) as unanimously resolved that the allowance should remain at £300. It was also decided following advice from OVW to award the allowance in January.

30. Clerk's Salary – (The Clerk left the room during discussion). It was decided to place the matter on next month agenda, as it would give members a chance to research whether the Clerks Wages meets the new minimum wage. The clerks wage would remain the same until all is checked and if an uplift was recommended, this would be backdated to the beginning of the Municipal year.

31. Stationary It was resolved that the Clerk be given delegated authority to purchase items of stationary and consumables in consultation with the Chair.

32. Planning

Notice of the Development Control

Awdurdod dirprwyedig, ac ni wnaethpwyd
unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
Melin Rhydowen, Rhydowen – A160347 –
Creu Llyn
Y Ficerdy, Llandysul – A16031 – Adeiladu
tri annedd

Committee Meeting to be held on
11.05.16 was received.

The following plans were approved
under delegated Authority, there were
no objections:-

Rhydowen Mill, Rhydowen – A160347
–Creation of Lake
Y Ficerdy, Llandysul – A16031 –
Erection of three dwellings

